*These notes refer to the Deddf Addysg (Cymru) 2014 (c.5) which received Royal Assent on 12 Mai 2014*

# DEDDF ADDYSG (CYMRU) 2014

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Adrannau 33 i 38 – Dyletswyddau o ran gwybodaeth*

51. Mae adrannau 33 i 38 yn ymwneud â chadw a rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Cyngor o ran cofrestru a rheoleiddio personau sy'n dymuno cael eu cofrestru.

52. Mae adran 33 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal cofnodion ynghylch personau amrywiol. Caiff hyn gynnwys, er enghraifft, gadw gwybodaeth am bobl sydd wedi gwneud cais i gofrestru ac sydd wedi cael eu gwrthod, neu am bobl sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr ar sail disgyblu.

53. Mae adran 34 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor am bersonau cofrestredig, naill ai ar gais y Cyngor neu pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i'r Cyngor gael yr wybodaeth honno. Mae adran 34 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor am athrawon unigol mewn ysgolion, naill ai ar gais y Cyngor neu pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i'r Cyngor gael yr wybodaeth honno.

54. Mae adran 35 yn gosod nifer o ddyletswyddau o ran gwybodaeth ar y Cyngor. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth iddynt (gan gynnwys gwybodaeth am bersonau cofrestredig). Mae hefyd yn caniatáu i berson y mae'r Cyngor yn cadw gwybodaeth amdano gael yr wybodaeth honno.

55. Mae adran 35 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth i bersonau neu gyrff penodol (at unrhyw ddibenion ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y caiff Gweinidogion Cymru eu pennu). Er enghraifft, gellid defnyddio'r p#er hwn i'w gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth i Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban ynghylch person sy'n destun gorchymyn disgyblu.

56. Mae adran 36 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr personau cofrestredig sy'n gweithio yng Nghymru roi i'r Cyngor enw unrhyw berson cofrestredig y mae'n ei gyflogi i ddarparu gwasanaethau perthnasol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwyr hynny hysbysu'r Cyngor os caiff person cofrestredig ei ddiswyddo o ganlyniad i ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol, neu oherwydd collfarn am drosedd berthnasol, a rhoi unrhyw wybodaeth bellach i'r Cyngor a bennir mewn rheoliadau. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i adolygu a oes angen iddo ymchwilio i ymddygiad y person o dan ei bwerau disgyblu.

57. Mae adran 37 yn gosod dyletswyddau tebyg i'r rhai a osodir gan adran 36 ar bersonau sy'n gweithredu fel asiant i berson cofrestredig.

58. Mae adran 38 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddyd, y caniateir ei orfodi drwy waharddeb, i unrhyw gyflogwr neu asiant person cofrestredig os yw

Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflogwr perthnasol neu asiant wedi methu neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â dyletswydd o dan adran 36 neu adran 37.